

Cofion a Llongyfarchion

Parhawn i gofio am sawl un o'n plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddwch yn profi Duw yn agos a'ch bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at Berwyn Evans (Llansannan) yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i chi a phawb arall sydd heb fod yn eu hwyliau gorau ar hyn o bryd. Hyderwn y byddwch oll yn profi gofal a chariad Duw yn eich amgylchynu.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ceridwen Evans (Llansannan) ar ddathlu pen-blwydd arbennig!

Llongyfarchiadau hefyd i Eiddwen ac Esmor Hughes (Llansannan) ar enedigaeth mab, Eilir Philip, brawd bach i Elisa ac Erin. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma eto, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Calendr Cristnogol

Mae cyfle arbennig i unigolion ac eglwysi i archebu Calendr Cristnogol ar gyfer 2022 sy'n cynnwys adnodau mewn print bras o gyfieithiad Beibl William Morgan. I sicrhau copi (neu gopiau) am bris gostyngol o 50c yr un, cysylltwch â Mair.



Coleg y Bala

- **ARFOGI (oedolion ifanc 19+)** – Tachwedd 26^{ain}– 27^{ain}. Cyfle i oedolion ifanc 19+ i gael eu hannog a'u harfogi, i addoli, i wrando ar Air Duw, ac i fwynhau cymdeithas gynnes. Pris y penwythnos yw £38 (neu £20 os yn mynd am y dydd Sadwrn yn unig). Bydd gofal plant ar gael ar y dydd Sadwrn. (Gweler isod i archebu lle.)
- **CWRS IEUENCTID (11-14 oed)** yng Ngholeg y Bala, Rhagfyr 3^{ydd}– 5^{ed} (dyddiad newydd). Penwythnos o weithgareddau, gemau, sgysiau o'r Beibl, a thrip i Tree Top ym Metws y Coed ar y dydd Sadwrn. Y gost yw £63 (neu £31.50 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig **£10 o ostyngiad i bob unigolyn**. (Gweler isod i archebu lle.)
- **HWYL YR WYL (i blant 7-11 oed)** – Dydd Sadwrn, Rhagfyr 11^{eg}. Diwrnod yn llawn gemau, crefft a chanu, ac yn gyfle i ddod â stori'r geni yn fyw i'r plant fydd yn mynychu. Y gost fydd £12 (hanner pris i frawd neu chwaer o'r un teulu). (Gweler isod i archebu lle.)

⇒ **I archebu lle, ewch i'r wefan: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg neu i gael ffurflen bapur, cysylltwch â'r Coleg ar 01678 520565 / colegybala@ebcpw.cymru, os gwelwch yn dda.**

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14 Tachwedd 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Bore da iawn i chi ar Sul y Cofio. Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod yn cael fy nhynnu pob sut ar ddiwrnod fel heddiw. Mae gen i gof am fy nhaid yn sôn am y rhyfel – yr ail ryfel byd – a'r ffrindiau a gollodd er na fuodd o ei hun ar faes y gad. Roedd y rhyfel yn fyw iawn iddo a'i genhedlaeth, a hyd yn oed i genhedlaeth fy rhieni gan y byddent wedi gorfod gwneud penderfyniadau mawr ynglŷn â'r orfodaeth filwrol a meddwl o ddifri am gost rhyddid a heddwch a rhyfel.

Yr hyn sy'n cael ei gredu'n gyffredin yw fod aberth y miloedd a fu'n ymladd anghyfiawnder a thrais wedi prynu heddwch i'n cenhedlaeth ni, a'n bod ni yn awr yn gallu mwynhau rhyddid – hyd yn oed y rhyddid i fod yn heddychwyr – o ganlyniad i'r rhyfela a fu. Mae gen i rhyw deimladau o ddyled felly, yn corddi'n ddwfn.

Ond eto, mae greddf ynof hefyd sy'n dweud fod lladd cyd-ddyn yn anghywir. Fedra i ddim dychmygu sut beth fyddai wynebu person arall, a'i gyfrif yn gymaint o elyn nes y byddwn yn fodlon ei ladd. A fyddwn i, mewn amgylchiadau arbennig, yn medru rhoi heibio fy ngreddf naturiol i arbed bywyd? A fyddwn i, dan deimladau o ofn neu o fod eisiau amddiffyn rhywun arall, yn fodlon lladd y rhai a fyddai'n bygwth? A fyddwn i yn gallu cyfiawnhau trais dan rai amgylchiadau? Mae gen i rhyw deimladau o ansicrwydd ynglŷn â sut y byddwn i yn ymateb yn corddi'n ddwfn hefyd.

Ond rwy'n gofyn yn amlach na pheidio, sut ddylwn i ymateb fel disgybl i Iesu? Beth yw arweiniad yr Ysbryd a'r Gair i mi? Mae un egwyddor glir a phendant iawn yn y Gair sef fod cariad Duw yn gallu achub a newid y gelyn pennaf (Rhuf. 5:10). O'i gariad y mae Duw wedi rhoi ei Fab i'r byd (Ioan 3:16). Os yw Duw wedi fy ngharu i gymaint â hyn, mae'n ofynnol i mi rwan, fel Cristion, barchu a charu pob person arall. Gorchymyn Crist i ni ydi: "Carwch eich gelynon, gweddiwch dros y rhai sydd yn eich erlid" (Mathew 5:44). Dyma ei esiampl Ef ar y groes pan weddiodd "O Dad, maddau iddynt ..." (Luc 23:34).

Heddiw, felly, ar ddydd y Cofio mi fydda i yn ceisio cofio am bawb, o bob gwlad, sydd mewn profedigaeth gan weddio dros y ddwy ochr ymhob argyfwng a rhyfel. Gweddiwn fel hyn gan gredu fod Duw yn gweithredu trugaredd a barn, yn ei Arglwyddiaeth, i'r rhai gostyngedig; mewn dial a chyfiawnder o blaid y diniwed, ac yn ei ras a'i gariad anorchfygol i gymodi'r gelynon ffyrnicaf.

Gweddiaf hefyd y bydd yr Ysbryd yn fy mhlygu i wrth groes Calfaria er mwyn i mi gael y nerth i fod yn debycach i'r Arglwydd yn fy holl ymwneud ag eraill.

Aneurin



Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

Y Fro

- Sul yma – Tachwedd 14^{eg} ➤ **Sgwrs a Gweddi** yn Festri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.
- Nos Lun, Tachwedd 15^{fed} a Dydd Gwener, Tachwedd 19^{eg}) ➤ **Byw mewn Gobaith, Merched yr Hen Destament** – y pumed sesiwn mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)
- Sul nesaf – Tachwedd 21^{ain} ➤ **Bore Bro Aled - Oedfa ar YouTube** o dan ofal Rhodri am 10:30 y bore neu gallwch wyllo unrhyw amser wedi hynny. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' sydd ar y dudalen flaen.)
- **Sgwrs a Gweddi** yng Nghefn Meiriadog am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.
- Dydd Mercher, Tachwedd 24^{ain} ➤ Cynhelir **Cynhadledd Dydd Gweddi'r Byd** (ar ZOOM) o 10:00 – 12:00. Os ydych am ymuno, gofynnir i chi gysylltu (rhwng Tachwedd 1^{af} ac 17^{eg}) â Margaret Morgan (margaretmaudmorgan@gmail.com) i'w galluogi i anfon y ddolen i chi ymlaen llaw i gysylltu ar ZOOM.
- Sul canlynol – Tachwedd 28^{ain} ➤ **Sgwrs a Gweddi** yn Festri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – Tachwedd 14^{eg} ➤ **Oedfa yn Llansannan am 9:30, ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00** (sylwch ar y newid lleoliad). Cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofgolofn yn Llansannan am 11:00 a hefyd yn y Neuadd Goffa yn Llanfair am 11:00. Bydd **Ysgol Sul y plant** yn cydreddeg â'r oedfa yn Llansannan.
- Nos Lun, Tachwedd 15^{fed} ➤ **Ysgol Sul yn Festri Cefn Meiriadog am 7:00.**

- Sul nesaf – Tachwedd 21^{ain} ➤ **Bore Bro Aled - Oedfa ar YouTube** o dan ofal Rhodri am 10:30 y bore neu gallwch wyllo unrhyw amser wedi hynny. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' sydd ar y dudalen flaen.)
- Nos Lun, Tachwedd 22^{ain} ➤ **Ysgol Sul yn Festri Cefn Meiriadog am 7:00.**
- Sul canlynol – Tachwedd 28^{ain} ➤ **Cyfarfod Gweddi yn Llanfair a Llansannan am 10:00** a bydd **Ysgol Sul y plant** yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llansannan.
- Bydd **Oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Meiriadog am 10:30.**

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – Tachwedd 14^{eg} ➤ **Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30 ac Oedfa Diolchgarwch yn Groes am 11:00** o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job. (Er mwyn sicrhau lle yng Nghefn Berain, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.)
- Sul nesaf – Tachwedd 21^{ain} ➤ **Ysgol Sul yn Llanefydd am 10:00.**
- **Bore Bro Aled - Oedfa ar YouTube** o dan ofal Rhodri am 10:30 y bore neu gallwch wyllo unrhyw amser wedi hynny. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' sydd ar y dudalen flaen.)
- Sul canlynol – Tachwedd 28^{ain} ➤ **Oedfa yn Henllan am 9.30 ac yn Llanefydd am 11.00** o dan arweiniad Rhodri. Rhowch eich enw i Rhian (rhianfachgau@yahoo.com) neu Alys (alysowen11@hotmail.co.uk) ar gyfer yr oedfa yn Henllan, os gwelwch yn dda.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – Tachwedd 14^{eg} ➤ **Oedfa yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Dafydd Timothy.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch yn Nantglyn am 2:00.**
- Sul nesaf – Tachwedd 21^{ain} ➤ **Bore Bro Aled - Oedfa ar YouTube** o dan ofal Rhodri am 10:30 y bore neu gallwch wyllo unrhyw amser wedi hynny. (I ymuno, ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' sydd ar y dudalen flaen.)
- Sul canlynol – Tachwedd 28^{ain} ➤ **Oedfa i'r Daith yn Saron am 10:00** o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (24^{ain}), os gwelwch yn dda.